



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer
Cynnig deddfwriaethol i
ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.



© Hawlfraint y Goron Ionawr 2018

WG33656

Cyflwyniad

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft hwn wedi'i ddatblygu i ystyried goblygiadau cynigion i gyflawni'r nod sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth Cymru sef diogelu hawliau plant drwy ddileu'r amddiffyniad cosb resymol.

Ar 18 Mai 2016, cyhoeddodd y Prif Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol. Cafod yr ymrwymiad hwn ei ddatgan drachefn yn "Symud Cymru Ymlaen", y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn ystyried 2 opsiwn:

1. "Gwneud Dim". Byddai'r opsiwn o wneud dim yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru yn dileu'r amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith yng Nghymru. Felly, ni fyddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno a byddai'r trefniadau presennol yn parhau.
2. Cyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Wrth wneud hynny, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnig creu trosedd droseddol newydd, dim ond dileu amddiffyniad ar gyfer troseddau ymosod a churo sydd eisoes yn bodoli yn y gyfraith yng Nghymru. Effaith hyn fyddai gwahardd rhieni a rheini in loco parentis rhag rhoi cosb gorfforol i'w plant.

Dim ond 2 opsiwn sy'n cael eu hystyried at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn oherwydd byddai'n rhaid newid y gyfraith i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol.

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 1: Gwneud Dim

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r amddiffyniad cosb resymol yn cadw'i le yn y gyfraith yng Nghymru fel ag y mae ar hyn o bryd. Mae manylion y dadansoddiad cost a budd o'r opsiwn isod.

Cyd-destun Polisi

Mae'r strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb", a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn mynegi cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru fod y blynyddoedd cynnar (o gyn-geni i 7 oed) mewn bywyd unigolyn yn cael dylanwad hollbwysig ar ei gyflawniadau a'i lesiant yn y dyfodol. Mae rhianta hyderus, cadarnhaol a chryf yn ffactor sylfaenol yn hyn.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau galluogi rhieni yng Nghymru i reoli ymddygiad eu plant yn hyderus heb deimlo bod rhaid iddynt droi at gosb gorfforol. Mae agweddau'n newid fwyfwy eisoes o ran y ffordd mae rhieni am fagu eu plant, gan chwilio am ddulliau cadarnhaol yn hytrach na throi at gosbi corfforol.

Fel arwydd o'i hymrwymiad i gefnogi teuluoedd ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pecyn cyfannol o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan bartneriaid mewn llywodraeth leol, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a'r trydydd sector. Rhoddir cymorth ar wahanol adegau o fywyd plentyn (cyn geni i'r glasoed) ac mae'n amrywio o gymorth ar gyfer rhieni â lefelau isel o angen, i gymorth dwys sydd wedi'i dargedu i raddau helaethach.

Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn darparu ystod o gymorth rhianta sy'n cwmpasu gwybodaeth a chynghor sydd ar gael i bawb yn gyffredinol, grwpiau rhianta a chymorth dwys wedi'i dargedu. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am benderfynu ar union natur y ddarpariaeth gwasanaeth yn lleol yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a'r anghenion sydd wedi'u nodi yn eu hardaloedd.

Bydd y rhan fwyaf o rieni angen gwybodaeth, cynghor neu gymorth o dro i dro i'w galluogi i gyflawni eu rôl hyd eithaf eu gallu.

Mae pob teulu'n gallu manteisio ar ystod o wasanaethau cyffredinol a ddarperir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a bydragedd. Mae gan ysgolion a darparwyr gofal plant rôl hollbwysig hefyd o ran nodi plant sydd ag anghenion ychwanegol a chynorthwyo rhieni i ddarparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref.

Sbardun allweddol ar gyfer y gweithgarwch hwn yw ymrwymiad hirsefydledig Llywodraeth Cymru i hawliau plant yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ers deddfu'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy greu diwylliant sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn cynnal hawliau plant.

O dan opsiwn 1, byddai Llywodraeth Cymru'n parhau â'i hymrwymiad i fuddsoddiad cyfredol yn yr ystod eang o gymorth a roddir i rieni, gofalwyr a theuluoedd yn nhymor y Cynulliad hwn ond dim mwy. Byddai negeseuon allweddol am fanteision rhianta cadarnhaol yn parhau i gael eu hargymell ond byddai'r amddiffyniad cosb resymol yn parhau ac felly byddai cosbi plant yn gorfforol yn gyfreithlon o hyd yng Nghymru. Felly ni fyddai'n cyflawni'r nod polisi datganedig o ddiogelu hawliau plant.

Costau

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n wynebu costau ar hyn o bryd am ei rhaglenni cymorth i rieni, gofalwyr a theuluoedd yng Nghymru. Mae'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn wynebu costau hefyd werth ymchwilio i rieni neu ofalwyr sydd wedi'u cyhuddo o ymosod cyffredin neu guro eu plant, ac erlyn y rhieni neu'r gofalwyr hynny.

Plant

O dan yr opsiwn hwn, gallai plant barhau i gael eu cosbi'n gorfforol yn eu cartrefi. Mae tystiolaeth o nifer o astudiaethau, yn cynnwys astudiaethau hydredol, sy'n dangos y berthynas rhwng y defnydd o gosbi corfforol a chynnydd mewn ymosodedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plantⁱ. Mae tystiolaeth hefyd fod cysylltiad sylweddol rhwng cosbi corfforol mwy mynych mewn un flwyddyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy mynych gan y plentyn y flwyddyn wedyn.

Mae anhwylderau ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, yn cynnwys anhwylder ymddygiad¹, yn effeithio ar oddeutu 5-10% o blant a dyma'r rhesymau mwyaf cyffredin dros atgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl plant. Amcangyfrifodd un astudiaeth fod y gwasanaethau ychwanegol hyn i blant 4-8 oed yn costio £15,282 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae cynorthwyo plant ag anhwylder ymddygiad nes eu bod yn oedolion yn costio deg gwaith yn fwy na'r ddarpariaeth ar gyfer plant heb anhwylder ymddygiad. Mae cysylltiad cryf rhwng anhwylder ymddygiad heb ei ddatrys a rhagolygon cyflogaeth gwael, tor priodas a hunan-niweidio neu ymddygiad gwrthgymdeithasol^{ii iii}.

Rhianta yw'r prif ffactor sy'n penderfynu ar ymddygiad plentyn. Mae rhieni sy'n annog ymddygiad cadarnhaol yn llai tebygol o gael plant â phroblemau ymddygiad. Mae ymchwil yn dangos bod dull rhianta sydd wedi'i nodweddu gan ddisgyblaeth lem ac anghyson yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy difrifol ymhlith plant, hyd yn oed ar ôl ystyried amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol y plentyn a'r teulu^{iv}.

Offeryn wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth y DU (2014) yw'r Troubled Families Cost Savings Calculator (CSC)^v. Ei nod yw helpu Awdurdodau Lleol sy'n rheoli gwasanaethau cymorth dwys ar gyfer teuluoedd â phroblemau lluosog, i gyfrif y

¹ Term clinigol yw anhwylder ymddygiad ac mae ar ben uchaf anawsterau ymddygiad ar ôl cyfnod parhaus o arddangos anawsterau ymddygiad.

buddion cost sy'n cael eu harbed gan wasanaethau ac asiantaethau mewn perthynas â theulu sy'n wynebu risg sy'n cael ac yn cwblhau ymyrraeth ddwys.

Bwriad CSC yw galluogi Awdurdodau Lleol i neilltuo'r arian maen nhw'n ei wario a'i arbed drwy wahanu'r gwahanol fathau o arbedion a wneir – y rheini i'r trethdalwr (arbedion cyllidol), arbedion i'r teulu (arbedion economaidd), ac arbedion i'r gymuned ehangach (arbedion cymdeithasol).

Mae un enghraifft o gostau a roddir yn y CSC yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n costio £7805.20^{vii} (bob tro) i roi Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) i berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys costau cyfreithiol a chostau'r heddlu ac amser yr Awdurdod Lleol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol heb gyflwyno ASBO yn amrywio o £100 - £1,000. Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â digwyddiadau sy'n amrywio o alw allan ynghyd â rhyw fath o gamau unioni, i gyfryngu/adfer sylweddol. Dim ond yr effaith fyrdymor ar y trethdalwr sydd wedi'i chynnwys yn y ffigurau hyn. Mae'r costau dynol a chymdeithasol yn uwch o lawer^{vi}.

Llywodraeth Cymru

Isod mae manylion costau cyfredol cefnogi teuluoedd ledled Cymru:

Rhaglen / Gweithgaredd	Cost
Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn rhaglen newid gwasanaeth dan ofal gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi fframwaith Cymru gyfan ar gyfer darparu gweithgarwch Ymwelwyr lechyd a Nyrsys Ysgol i blant o'u geni hyd nes eu bod yn saith oed.	Mae'r rhaglen ei hun yn niwtral o ran cost; fodd bynnag, ar 30 Medi 2016 roedd 869.8 o Ymwelwyr lechyd cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth cyffredinol. Roedd 304.8 yn rhagor o Ymwelwyr lechyd cyfwerth ag amser llawn ² yn cael eu cyflogi mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.
Rhaglen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru yw Dechrau'n Deg. Yn ogystal â chael cymorth rhianta, mae rhieni a gofalwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gallu cael gwasanaeth ymwelydd iechyd dwys, gofal plant rhan-amser o ansawdd da ar gyfer plant 2-3 oed a chymorth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu.	Yn 2016/17, cyfanswm y gwariant refeniw ar y rhaglen Dechrau'n Deg oedd £74,488,642.

² Mae nifer yr Ymwelwyr lechyd cyfwerth ag amser llawn yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio'r nifer gwirioneddol o oriau a weithir gan Ymwelwyr lechyd a thybio eu bod i gyd yn gweithio wythnos safonol o 37.5 awr ac wedi gweithio pob wythnos o'r cyfnod dan sylw. Mae'r dull hwn yn debygol o roi amcangyfrif rhy fach o nifer gwirioneddol yr Ymwelwyr lechyd.

<p>Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithredu'n lleol gyda phob Awdurdod Lleol yn mynd ati i gomisiynu prosiectau'n strategol i ymateb i anghenion poblogaethau lleol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi rhieni mewn sawl ffordd, o ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarparu ymyriadau rhianta sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae prosiectau sy'n cynnig mynediad at ymyriadau rhianta neu wasanaethau cymorth rhianta yn cwmpasu ystod o oedrannau, o gyn-geni i blant hŷn.</p>	<p>Yn 2016/17, cyfanswm y gwariant refferniw ar y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf oedd £38,315,618.</p>
<p>Lansiwyd yr ymgyrch "Mae addysg yn dechrau yn y cartref" ym mis Mai 2014 a'i nod yw ceisio annog rhieni a gofaluwr i gymryd diddordeb yn addysg eu plentyn drwy wneud pethau syml, fel darllen gyda'u plentyn a gwneud yn siŵr ei fod yn cael brecwast iach.</p>	<p>Cyllideb 2016/17 oedd £210,000, ac yn 2017/18 roedd yn £90,000.</p>
<p>Lansiwyd yr ymgyrch "Magu plant. Rhowch amser iddo" ym mis Tachwedd 2015, a'r gynulleidfa darged yw'r rheini sy'n gyfrifol am fagu plant o'u geni nes eu bod yn 5 oed. Ei nod yw sicrhau bod gan rieni'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud eu gorau fel rhieni, drwy wefan ac ymgyrch yn y cyfryngau yn rhoi cynghorion a gwybodaeth am rianta cadarnhaol.</p> <p>Mae 80,000 a mwy o lyfrynnau a chyfres o daflenni gwybodaeth am ystod o bryderon rhianta wedi'u darparu i ymwelwyr iechyd, gweithwyr rhianta proffesiynol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn eu dosbarthu i rieni. Mae gwybodaeth wedi'i darparu hefyd drwy leoliadau gofal plant, meddygfeydd teulu a llyfrgelloedd.</p>	<p>Yn 2015/16, roedd gwariant ar yr ymgyrch yn £170,833 ac yn 2016/17 roedd yn £258,509.</p> <p>Cyllideb yr ymgyrch ar gyfer 2017-18 yw £400,000.</p>

Yr Heddlu

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda 4 Rhanbarth yr Heddlu yng Nghymru; serch hynny, cyfrifoldeb Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU yw plismona o hyd.

Mae'r heddlu'n gyfarwydd â chael adroddiadau o ddigwyddiadau posibl lle mae plentyn wedi dioddef ymosodiad cyffredin neu gael ei guro gan riant. Pan fydd adroddiad yn dod i law, mae'r heddlu'n ceisio siarad gyda'r plentyn a'r teulu i ganfod ffeithiau'r achos. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar y cyd i gael darlun mwy cyflawn o'r teulu a'i sefyllfa cyn penderfynu beth i'w wneud. Dim ond os yw'r heddlu o'r farn bod digon o dystiolaeth i sicrhau erlyniad llwyddiannus y bydd dystiolaeth yn cael ei rhoi i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Os bydd yr amddiffyniad cosb resymol yn parhau o dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r heddlu. Ni fyddai unrhyw newid i arferion gweithredu cyfredol neu'r broses ar gyfer cynnal ymchwiliadau neu benderfynu pa gamau i'w cymryd.

Awdurdodau Lleol

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dull partneriaeth cryfach, cadarn ac effeithiol o ddiogelu. Mae diogelu plant yn arbennig o berthnasol i'r rheini sy'n gweithio ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, os yw plentyn yn dweud wrth athro fod ei riant wedi'i smacio, neu os yw athro'n gweld plentyn yn cael ei smacio, mae dyletswydd gyfreithiol ar yr athro eisoes i roi gwybod am y digwyddiad yn unol â'r arfer sydd wedi'i gytuno. Mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, yn dibynnu ar natur y digwyddiad, fyddai ymchwilio a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd. Efallai fod angen cymorth ychwanegol ar rieni a'u bod yn cael cynnig cymorth drwy wasanaethau ataliol fel Teuluoedd yn Gyntaf.

Nid oes costau ychwanegol i Awdurdodau Lleol o dan opsiwn 1 oherwydd ni fyddai unrhyw newid i'r ffordd mae arferion diogelu neu ymchwilio yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn adran gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn nodi adnoddau sydd eu hangen ar gyfer arferion cyfredol a nifer y digwyddiadau o gosbi corfforol y gallai fod angen ymchwilio iddynt.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Ar hyn o bryd, wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn cyfeirio at y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a chanllawiau cyfreithiol sef y *Charging Standard*. Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid erlyn ac mae'n cynnwys defnyddio profion tystiolaeth a budd cyhoeddus. Mae'r *Charging Standard* yn amlinellu'r amddiffyniad cosb resymol ac yn datgan:

“Section 58 of the Children Act 2004 has removed the availability of the reasonable chastisement defence for parents or adults acting in loco parentis where the accused is charged with wounding, causing grievous bodily harm, assault occasioning actual bodily harm or cruelty to persons less than 16 years of age. However the reasonable chastisement defence remains available for parents or adults acting in loco parentis against charges of common assault”^{vii}.

Adolygodd Llywodraeth y DU Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn 2007. Roedd yn dangos bod yr amddiffyniad wedi cael ei ddefnyddio mewn 12 achos yng Nghymru a Lloegr rhwng Ionawr 2005 a Chwefror 2007, gyda phob achos yn arwain at ddyfarniad dieuog neu'n cael ei ollwng. O'r 12 hyn, roedd:

- 4 lle cafodd ei ddefnyddio'n benodol fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin;

- 4 lle'r oedd y diffynnydd wedi'i gyhuddo o ymosod cyfredol, na ddefnyddiwyd yr amddiffyniad yn benodol ond lle gallai wedi bod yn ffactor yn y dyfarniad dieuog neu'r penderfyniad i ollwng yr achos; a,
- 4 lle cyflwynwyd cosb resymol gan y diffynnydd er gwaetha'r ffaith nad oedd yn cyfrif fel amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn y cyhuddiad o greulondeb at blentyn.

Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data mwyach ar y defnydd o'r amddiffyniad cosb resymol yn ystod achosion ymosod cyffredin ac, felly, nid oes modd amcangyfrif y costau cysylltiedig.

Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Er mwyn asesu effaith y defnydd o'r amddiffyniad cosb resymol a phriodoli costau i'r drefn bresennol, rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cymorth Cyfreithiol

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd Cymorth Cyfreithiol yn gallu cynorthwyo i dalu costau cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys; fodd bynnag, byddai angen i'r diffynnydd fodloni meini prawf llym, a nodir yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012 a rheoliadau cysylltiedig, er mwyn bod yn gymwys ac mae'r cymorth cyfreithiol sydd ar gael wedi'i gyfyngu'n ddifrifol yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi'r effeithiau ariannol posibl.

Apelau

Mae'n bosibl y gall difinyddion apelio yn erbyn penderfyniad y llys os iddynt gollu eu hachos. Mae apelau'n erbyn penderfyniad llys ynadon mewn achosion troseddol yn cael eu clywed gan Lys y Goron.

Hawliadau Sifil

Mae'r amddiffyniad cosb resymol yn bodoli mewn cyfraith droseddol a chyfraith sifil. O dan gyfraith sifil ar hyn o bryd, gall unigolion gyflwyno hawliadau o bob math am ddigollediad ariannol gerbron y llysoedd sifil, yn cynnwys am ddigwyddiadau niweidiol a ddigwyddodd yn ystod eu plentyndod. Mae gwahanol ffyrdd o hawlio iawndal, er enghraifft, drwy achosion yn y llys sifil, drwy wneud cais am orchymyn digolledu troseddol os yw'r tramgwyddwr eisoes wedi cael ei gollfarnu, a, thrwy gyflwyno hawliad i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol. Bydd swm yr iawndal yn dibynnu ar faint gall y troseddwr ei dalu (hyd at uchafswm sydd wedi'i bennu). Os gwneir gorchymyn digolledu, bydd y llys yn gyfrifol am sicrhau bod y troseddwr yn talu.

Nid oes modd hawlio Cymorth Cyfreithiol ar gyfer hawliadau'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ac ar gyfer hawliadau camwedd (curo).

Rhieni a'r rheini sydd in loco parentis

Wrth bennu'r ddedfryd ar gyfer trosedd ymosod cyffredin yn erbyn plentyn, mae'r Cyngor Dedfrydu wedi cynhyrchu canllaw diffiniol ychwanegol sy'n cynnwys "Overarching Principles: Assaults on Children and Cruelty to a Child"^{viii}. Mae'r canllaw'n amlinellu egwyddorion perthnasol ar gyfer dedfrydu lle ymosodwyd ar blentyn o dan 16 oed. Mae'n datgan "the defence of lawful chastisement is available only in relation to a charge of common assault. Where that defence is not available, or, in relation to a charge of common assault, such a defence has failed, sentence for the offence would normally be approached in the same way as any other assault".

Os yw rhiant neu ofalwr wedi defnyddio'r amddiffyniad yn ystod achos llys ond ei fod wedi methu a bod ef/hi yn cael collfarn ymosod cyffredin, bydd yr ynadon neu'r barnwr yn dedfrydu yn unol â'r canllawiau dedfrydu. Mae'r Cyngor Dedfrydu'n rhoi canllawiau ar benderfynu ar ba gategori o drosedd a gyflawnwyd.

Categoriâu Troseddau:

Categori 1	Mwy o niwed (rhaid bod anaf neu ofn anaf yn bresennol fel arfer) a beusrwydd uwch
Categori 2	Mwy o niwed (rhaid bod anaf neu ofn anaf yn bresennol fel arfer) a beusrwydd is; neu lai o niwed a beusrwydd uwch
Categori 3	Llai o niwed a beusrwydd is

Ar ôl i'r llys gyttuno ar gategori'r drosedd, rhaid iddo benderfynu wedyn ar ddedfryd gan ddefnyddio'r manau cychwyn a'r ystodau ar gyfer pob categori a ddarperir gan y Cyngor Dedfrydu:

Categori'r Drosedd	Man Cychwyn	Ystod y Categori
Categori 1	Gorchymyn cymunedol lefel uchel	Gorchymyn cymunedol lefel isel – 26 wythnos dan glo
Categori 2	Gorchymyn cymunedol lefel ganolig	Dirwy Band A – Gorchymyn cymunedol lefel uchel
Categori 3	Dirwy Band A	Rhyddhau – Dirwy Band C

Dyma'r 3 chategori o ddirwy:

Band Dirwy	Man Cychwyn	Ystod y Categori
Band A	50% o incwm wythnosol perthnasol	25% - 75% o incwm wythnosol perthnasol
Band B	100% o incwm wythnosol perthnasol	75% - 125% o incwm wythnosol perthnasol
Band C	150% o incwm wythnosol perthnasol	125% - 175% o incwm wythnosol perthnasol

Yr enillion wythnosol gros amser llawn canolrifol yng Nghymru yn 2017 oedd £500^{ix} y pen. Ar sail y ffigur hwn, y cosbau posibl am ymosod cyffredin yw:

Band Dirwy	Man Cychwyn	Ystod y Categori
Band A	£250	£125-£375
Band B	£500	£375-£625
Band C	£750	£625-£875

Y gosb fwyaf am ymosod cyffredin difrifol yw 26 wythnos dan glo^x. Er na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai achos o gosbi corfforol yn arwain at ddedfryd o garchar i riant neu ofalwr, rydym wedi, at ddibenion y ddogfen hon, ystyried y goblygiadau cysylltiedig o ran cost. Mae Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n gyfrifol am reoli carchardai a'r gwasanaeth prawf. Yn 2016-17, roedd hi'n costio £35,371^{xi} ar gyfartaledd i gadw un person yn y carchar.

Mae'r system Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru a Lloegr yn trin troseddwr ifanc, o dan 18 oed, yn wahanol i oedolion. Felly byddai rhieni o dan 18 oed sy'n cael collfarn ymosod cyffredin yn cael eu dedfrydu o dan ganllawiau gwahanol. Mae'r Cyngor Dedfrydu wedi cynhyrchu canllaw diffiniol "Sentencing Children and Young People" sy'n datgan y dylai'r dull o ddedfrydu troseddwr ifanc gael ei addasu i'r unigolyn a chanolbwyntio ar y plentyn neu berson ifanc, yn hytrach nag ar y drosedd^{xii}. Am y rheswm hwn, nid oes cosbau wedi'u rhagnodi ar gyfer trosedd ymosod cyffredin ac mae barnwyr ac ynadon yn debygol o gynnwys dulliau adferol yn eu hopsiynau dedfrydu er mwyn annog y troseddwr ifanc i ysgwyddo cyfrifoldeb am ei weithredoedd a deall yr effaith y gallai'r drosedd fod wedi'i chael ar eraill.

Manteision

Un o fanteision posibl yr opsiwn gwneud dim fyddai arbedion cost cychwynnol oherwydd bydd opsiwn 2 yn arwain at gostau i wasanaethau cyhoeddus, y system gyfiawnder ac ar rieni unigol gan na fyddant yn gallu defnyddio'r amddiffyniad mewn achosion llys mwyach.

Anfanteision

Mae yna nifer o anfanteision yn gysylltiedig ag opsiwn 1. Os yw'r amddiffyniad cosb resymol yn parhau, parhau hefyd mae'r anomaledd yn y gyfraith lle mae plant yn cael eu diogelu i raddau llai rhag cosb gorfforol nag oedolion. Felly ni fyddai'n llwyddo i fodloni'r nod polisi datganedig o ddiogelu hawliau plant. Nid yw hyn yn gydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a bydd yn golygu bod Cymru, fel rhan o'r DU, yn agored i barhau i gael ei beirniadu gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am beidio â chyflawni ei

rhwymedigaethau o dan Erthygl 19. Mae'r Erthygl yn datgan y dylai gwledydd gymryd pob mesur deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol priodol i ddiogelu'r plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol... pan fydd dan ofal rhiant (rhieni), gwarcheidwad (gwarcheidwaid) cyfreithiol neu unrhyw berson arall sydd â gofal am y plentyn.

Hefyd, fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, mae tystiolaeth fod cosbi plant yn gorfforol yn gallu cael effeithiau negyddol hirdymor ar gyfleoedd bywyd plentyn a'i fod yn gosb aneffeithiol. Mae nifer o astudiaethau wedi dangos perthynas rhwng y defnydd o gosbi corfforol a chynnydd mewn ymosodedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plant^{xiii}.

Mae tystiolaeth fod plant sy'n cael eu smacio'n aml yn fwy tebygol o gael eu cofnodi fel rhai ag ymddygiad anodd, yn cynnwys bod yn orfywiog, ac yn heriol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â modelau^{xiv} sy'n awgrymu bod defnydd o gosbi corfforol gan rieni yn hyrwyddo ymddygiad gwrthgymdeithasol plant, mwy felly nag y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol plant yn arwain at rianta llym^{xv}.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'n costio £7805.20 (bob tro) i roi Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) i berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys costau cyfreithiol a chostau'r heddlu ac amser yr Awdurdod Lleol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol nad yw'n gwarantu ASBO yn amrywio o £100 - £1,000. O dan opsiwn 1, byddai'r costau hyn i'r trethdalwr yn parhau, felly hefyd y costau dynol a chymdeithasol^{xvi}.

Mae cydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi tynnu sylw at y pryderon sydd ganddynt eisoes nad yw gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn gallu cynnig cyngor diamwys i rieni am gosbi corfforol oherwydd bodolaeth yr amddiffyniad. Byddai dileu'r amddiffyniad yn sicrhau y gellid rhoi cyngor clir i rieni am ddisgyblu eu plant a defnyddio technegau rianta cadarnhaol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno Bil Cynulliad i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol

Mae'r opsiwn hwn yn ystyried y costau a'r manteision a fyddai'n deillio o Fil y Cynulliad gyda darpariaeth i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Effaith hyn fyddai gwahardd rhieni a'r rheini in loco parentis rhag rhoi cosb gorfforol i'w plant ar unrhyw gyfrif o dan y gyfraith.

Nid diben y ddeddfwriaeth arfaethedig yw creu trosedd newydd. Mae'r amddiffyniad fel ag y mae ar hyn o bryd yn ymwneud â chosb gorfforol, nid y rhyngweithio o ddydd i ddydd rhwng rhiant neu ofalwr a plentyn. Felly nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd dileu'r amddiffyniad yn cael unrhyw effaith ar ryngweithio rianta arferol.

Fel yr amlinellwyd yn opsiwn 1, mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi'n helaeth mewn pecyn amrywiol o gymorth i deuluoedd ledled Cymru. Rhan annatod o'r rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yw annog rhieni i fabwysiadu dulliau rianta cadarnhaol, gan roi'r hyder iddynt reoli ymddygiad eu plant heb droi at gosbi corfforol. Yn ogystal, mae ymgyrch "Magu plant. Rhowch amser iddo"

Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am rianta cadarnhaol ac mae llyfrynnau a thafleuni gwybodaeth wedi'u rhoi i rieni drwy law ymwelwyr iechyd a gweithwyr rianta proffesiynol eraill.

Yn ôl arolygon sydd wedi'u cynnal ymysg y cyhoedd yng Nghymru yn ddiweddar, mae rhieni yn aml yn casáu'r syniad o ddefnyddio cosb gorfforol ac maen nhw'n dewis defnyddio mwy o dechnegau rianta cadarnhaol^{xvii}. Yn 2015, dim ond 5% o'r rhieni cyfredol yng Nghymru oedd yn gyfforddus â'r syniad o smacio ac yn gwneud hynny pan roeddent o'r farn fod angen smacio^{xviii}. Bwriad Llywodraeth Cymru wrth ddileu'r amddiffyniad cosb resymol yw rhoi hwb pellach i'r newid mewn agweddau at gosbi corfforol sydd eisoes wedi digwydd yn ein cymdeithas fodern a blaengar.

Er bod tystiolaeth yn dangos nad yw cosbi corfforol yn effeithiol a'i fod yn gallu bod yn niweidiol, mae'n parhau i fod yn gyfreithlon. Ymhellach, byddai dileu'r amddiffyniad yn diogelu hawliau plant ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy roi diwedd ar bob ffurf o gosbi corfforol.

Mae 53 o wledydd wedi rhoi diwedd ar gosbi corfforol ym mhob lleoliad, yn cynnwys yn y cartref; fodd bynnag, dim ond 4 o'r gwledydd hynny sydd ag awdurdodaeth cyfraith gyffredin, fel sydd gennym ni yng Nghymru a Lloegr, a dim ond 3 o'r rheini sydd wedi rhoi diwedd ar gosbi corfforol gan ddefnyddio'r gyfraith droseddol. Nid oes modd cymharu'n uniongyrchol â gwledydd eraill ond Seland Newydd, sydd â system cyfraith gyffredin ac sy'n un o wledydd y Gymanwlad, sydd debycaf.

Ar ôl deddfu Crimes (substituted section 59) Amendment Act 2007, a oedd yn gwahardd cosbi corfforol, roedd gofyn i'r Heddlu Seland Newydd fonitro nifer yr adroddiadau a gawsant am ddigwyddiadau posibl a chanlyniadau pob un o'r digwyddiadau hynny. Ym mis Tachwedd 2009, dywedodd adroddiad y Llywodraeth^{xix} fod data'r Heddlu'n dangos er bod nifer yr adroddiadau o drais yn gyffredinol wedi cynyddu, nid oedd rhieni wedi cael eu herlyn am yr hyn a ddisgrifiwyd fel smacio ysgafn. Dywedwyd "[t]he data does not disclose any changes, during the two years the [Amendment] Act has been in force, in the way the New Zealand Police or Child, Youth and Family have responded to reports of light smacking."

Roedd yr heddlu hefyd o'r farn nad oedd y gyfraith newydd wedi cael unrhyw effaith o bwys ar eu busnes ac na welwyd newid o ran adrodd am smacio ers ei deddfu. Cefnogwyd y farn hon gan adolygiad pellach^{xx} y flwyddyn honno a nododd mai un o'r negeseuon allweddol gan swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol oedd nad oedd newid yn y gyfraith yn eu hagwedd at adroddiadau am bryderon ynghylch diogelwch a llesiant plant na'r ffordd roeddent yn ymateb i'r adroddiadau hynny.

Yn ôl yr adolygiad, yn y flwyddyn yn gorffen 30 Mehefin 2009, cafodd yr adran sy'n ymdrin â phlant, ieuencid a theuluoedd 110,797 o hysbysiadau: barnwyd bod angen gweithredu pellach mewn 49,224 ohonynt ar ôl eu hasesu; a chafodd 2,855 o achosion o gam-drin corfforol eu profi. Serch hynny, er bod hysbysiadau i'r adran sy'n ymdrin â phlant, pobl ifanc a theuluoedd wedi bod ar gynnydd ers cyn i'r ddeddf yn diwygio adran 59 gael ei deddfu (cafwyd 27,507 yn 2001/02, o gymharu â mwy na 110,000 yn 2008/09), nid oedd nifer yr hysbysiadau a oedd angen ymateb pellach wedi cynyddu i'r un graddau.

Costau

Llywodraeth Cymru

O dan opsiwn 2, byddai'r costau i Lywodraeth Cymru a amlinellwyd yn opsiwn 1 mewn perthynas â chymorth rhianta yn parhau a byddai costau ychwanegol hefyd.

Mae profiad gwledydd eraill yn dangos bod angen gwneud mwy na chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd yn unig i ddileu cosbi corfforol. Mae yna dystiolaeth bod diwygio'r gyfraith i wahardd cosbi corfforol, ar y cyd ag addysgu'r cyhoedd, yn arwain at leihau mewn cosbi corfforol a newid agweddau. Lle mae ymgyrchoedd wedi bod yn llai dwys, mae yna duedd debyg, ond ar lefel is^{xxi}.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod rhaid i newid yn y gyfraith ddigwydd law yn llaw ag ymgyrch graddfa fawr dros gyfnod hir yng Nghymru. Gellir dysgu gwersi am y ffordd orau o wneud hyn o ymgyrchoedd sydd wedi cyd-fynd â deddfwriaeth yma yng Nghymru a thu hwnt:

- Yn Seland Newydd, er enghraifft, mae SKIP ('Strategies with Kids, Information for Parents'), rhaglen a ariennir gan y llywodraeth, yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol drwy brosiectau cymunedol, drwy nifer o sianeli cyfryngau a thrwy wefan. Yn ôl gwerthusiad ansoddol o'r rhaglen SKIP^{xxii} roedd yr ymgyrch wedi arwain at ymwybyddiaeth gref o'r neges disgyblaeth gadarnhaol a dywedodd rhieni eu bod yn rhianta'n fwy effeithiol a hyderus o dipyn.
- Parodd yr ymgyrch smygu ail law mewn ceir am gyfanswm o 2 flynedd ac 1 mis, o 2012-2015, gan gostio £1.75 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu ar y teledu, radio, yn y cyfryngau print, drwy amrywiaeth o sioeau teithiol a digwyddiadau a gwefan. Lledaenwyd negeseuon ymysg rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod hefyd yn cynnwys y Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf a gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Mae'r ymgyrch ynghylch y newid yn y gyfraith rhoi organau yng Nghymru yn cael ei gynnal ar raddfa fwy dros gyfnod o 10 mlynedd, gyda chyfanswm y gost yn £3,986,000. Dechreuodd gweithgarwch cyfathrebu yn 2012 gyda mwyafrif llethol y gwario'n digwydd yn y cyfnod rhwng cael Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) yn 2013 a phan ddaeth y ddeddf i rym yn 2015. Roedd yr ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gynhwysfawr a chafodd negeseuon eu lledaenu ar draws amrywiaeth eang o sianeli cyfryngau a thrwy ddogfennau ategol a anfonwyd i bob cartref yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn cynrychioli opsiynau ar gyfer ymgyrch hysbysebu effaith is ac effaith uwch y gellid ei defnyddio i gefnogi deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol.

	Disgrifiad	Amcan o'r Gost
Opsiwn A	Ymgyrch effaith is yn cynnwys rhai hysbysebion teledu a radio, hysbysebu awyr agored ond sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ledaenu negeseuon drwy gyfryngau cymdeithasol a rhywfaint o lenyddiaeth ategol	Tua £200,000 y flwyddyn
Opsiwn B	Ymgyrch effaith uwch yn cynnwys hysbysebion teledu a radio, hysbysebu awyr agored, presenoldeb amlwg iawn yn y cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddi llenyddiaeth ategol	Tua £600,000 y flwyddyn

Er y byddai disgwyl i'r ymgyrch gael ei rhedeg gan asiantaeth gyfathrebu allanol, byddai angen i staff yn Llywodraeth Cymru reoli a chydgysylltu gweithgarwch. At ddibenion yr opsiwn hwn rydym yn rhagweld 1 swydd Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) amser llawn ac 1 swydd Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) rhan-amser.

Cost gros un HEO amser llawn y flwyddyn yw £43,200 a chostau gros un SEO amser llawn y flwyddyn yw £55,248, ar sail pwynt canol y raddfa gyflog. Felly, y gost staffio gros flynyddol i Lywodraeth Cymru fyddai £70,824. Rhagwelir y byddai angen yr adnodd hwn am 3 - 5 mlynedd yn dilyn y newid yn y gyfraith ac, wedi hynny, byddai'r rolau'n cael eu llyncu gan weithgareddau busnes fel arfer yn y timau presennol.

Gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen (Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r system cyfiawnder troseddol (Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi)

Mae'r broses a ddilynir gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ymchwilio i ddigwyddiadau posibl o ymosod cyffredin gan rieni yn erbyn plant wedi'i hamlinellu yn opsiwn 1. Nid oes bwriad i arferion cyfredol newid ar ôl gwahardd cosbi plant yn gorfforol o dan opsiwn 2. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byd rhai costau pontio bach yn ymwneud â diweddarau canllawiau neu hyfforddiant i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith, er mae disgwyl y gallai'r rhan fwyaf o'r costau hyn gael eu talu drwy adnoddau cyfredol. Nid oes bwriad i newid trothwy Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer penderfynu erlyn, fel y'i hamlinellir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai fod costau ychwanegol i ranbarthau Heddlu Cymru ac i Awdurdodau Lleol o dan yr opsiwn hwn os yw nifer yr adroddiadau am achosion posibl o ymosod cyffredin yn cynyddu ar ôl newid y gyfraith. Rydym ni'n gweithio gyda'r sefydliadau hyn i asesu'r goblygiadau posibl o ran cost.

Rydym ni hefyd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i asesu effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar y system cyfiawnder.

Manteision

Mae nifer o fanteision yn ymwneud â'r opsiwn hwn wedi'u nodi.

Os caiff y defnydd o gosbi corfforol ei wahardd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu o dan y gyfraith a byddwn wedi cyflawni ein rhwymedigaethau i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, bydd dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn dileu hefyd yr anomaledd yn y gyfraith lle nad yw plant yn cael eu diogelu rhag trosedd ymosod cyffredin yn yr un ffordd ag oedolion.

Byddai opsiwn 2 hefyd yn dileu bwloch sy'n bodoli ar gyfer mathau penodol o leoliadau sydd heb eu cwmpasu gan y newidiadau blaenorol i'r gyfraith am gosb gorfforol mewn lleoliadau addysgol. Er bod cosb gorfforol wedi'i gwahardd mewn ysgolion ers talwm, mae yna fwloch cyfreithiol sy'n galluogi oedolion sy'n gweithredu in loco parentis mewn 'lleoliadau anaddysgol' (fel ysgolion Sul neu Madrassas) i ddefnyddio'r amddiffyniad cosb resymol. Byddai'r cynnig deddfwriaethol hwn yn dileu'r bwloch hwn.

Un o fanteision allweddol eraill yr opsiwn hwn yw sicrhau llesiant plant a'u teuluoedd drwy gefnogi a hyrwyddo dulliau rhianta cadarnhaol mwy effeithiol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod smacio'n arwain at well ymddygiad ymysg plant^{xxiii} ac mae yna gorff digonol o dystiolaeth sy'n dangos bod rhianta cadarnhaol yn hollbwysig i sicrhau canlyniadau llwyddiannus i blant^{xxiv}.

Mae ymchwil yn awgrymu bod rhianta awdurdodol, cadarnhaol yn fuddiol ymhob cyfnod o ddatblygiad plentyn^{xxv xxvi xxvii xxviii xxix xxx xxxi}. Er mwyn datblygu'n iach, cydnabyddir bod plant angen arweiniad a chyfarwyddyd gan eu rhieni, yn unol â'u hoed a'u cam datblygu. Mae rhieni sy'n gofalu am blant, yn enwedig plant ifanc, yn gorfod eu trin yn gorfforol ac ymyrryd yn aml er mwyn eu diogelu rhag niwed. Mae sawl ffordd y gall rhieni ddisgyblu plentyn heb droi at gosb gorfforol a byddai'r ffordd hyn yn cael eu hyrwyddo ochr yn ochr â negeseuon bod y gyfraith wedi newid.

Er na fydd mwyafrif llethol yr achosion o riant yn smacio plentyn yn fater diogelu, gallai newid yn y gyfraith olygu bod sylw'n cael ei roi i faterion diogelu ehangach a bod teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi'n gynnar.

Anfanteision

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw riant sy'n cosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru yn gallu dibynnu mwyach ar yr amddiffyniad cosb resymol ac mae'n bosibl y gellid dwyn erlyniad troseddol llwyddiannus am ymosod cyffredin yn ei erbyn. Yn yr achos hwn, byddai dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn anfantais i riant neu ofalwr.

Adolygu ar ôl gweithredu

Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, nod allweddol y ddeddfwriaeth yw cyflymu'r newid ymddygiad yn y ffordd mae rhieni a gofalwyr yn disgyblu eu plant. Byddwn yn parhau i gynnal ein harolwg rheolaidd o agweddau rhieni i fesur effaith y ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r nod allweddol hwn. Byddwn yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol rheng flaen hefyd i bennu mecanweithiau eraill ar gyfer asesu effaith y ddeddfwriaeth.

Cyfeiriadau

- ⁱ Gershoff, E. T. (2013) "Spanking and Child Development: We Know Enough Now to Stop Hitting Our Children", *Child Development Perspectives*, 7 (3), 133-137
- ⁱⁱ Scott S, Knapp M, Henderson J, Maughan B. (2001) "Financial cost of social exclusion: follow up study of antisocial children into adulthood" *BMJ*. 2001 Gorffennaf 28; 323(7306):191
- ⁱⁱⁱ Edwards RT, C illeachair A, Bywater T, Hughes DA, Hutchings J. (2007) "Parenting programme for parents of children at risk of developing conduct disorder: cost effectiveness analysis" *BMJ*. 2007 Mawrth 31; 334(7595):682. Epub 2007 Mawrth 9
- ^{iv} Yr Adran Addysg (Llywodraeth y DU) (2012). "How is parenting style related to child antisocial behaviour? Preliminary findings from the Helping Children Achieve Study"
- ^v <https://www.staffordshire.gov.uk/community/community/Troubled-Families-Cost-Savings-Calculator.pdf> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{vi} Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) "Quantifying the Benefits of Early Intervention in Wales: A Feasibility Study". Awst 2015
- ^{vii} https://www.cps.gov.uk/legal/l_to_o/offences_against_the_person/ [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{viii} https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/web_Overarching_principles_assaults_on_children_and_cruelty_to_a_child.pdf [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{ix} <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2017provisionaland2016revisedresults#regional-earnings> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^x <https://www.sentencingcouncil.org.uk/offences/item/common-assault-racially-religiously-aggravated-common-assault/> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{xi} https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/653972/costs-per-place-per-prisoner-2016-2017-summary.pdf [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{xii} https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2017]
- ^{xiii} Gershoff, E. T. (2013) "Spanking and Child Development: We Know Enough Now to Stop Hitting Our Children", *Child Development Perspectives*, 7 (3), 133-137
- ^{xiv} Early Intervention Foundation 2016 "Foundations for Life: What Works to Support Parent Child Interaction in the Early Years" Gweler tudalen 89 am ddisgrifiad o fodel Patterson o ryngweithio 'cymhellol' rhwng rhiant a phlentyn <http://www.eif.org.uk/publication/foundations-for-life-what-works-to-support-parent-child-interaction-in-the-early-years/>
- ^{xv} Lansford, J. E., Sexton, H. R., Davis-Kean, P., & Sameroff, A. J. (2012) "Reciprocal Relations Between Parents' Physical Discipline and Children's Externalizing Behavior During Middle Childhood and Adolescence", *Dev Psychopathol*. 2011 February; 23(1): 225–238
- ^{xvi} Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) "Quantifying the Benefits of Early Intervention in Wales: A Feasibility Study", August 2015
- ^{xvii} Llywodraeth Cymru. 2014. Managing Children's Behaviour, Attitudes and Practices: Baseline Survey 2013. [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140603-managing-childrens-behaviour-attitudes-practices-baseline-survey-2013-en.pdf> a Llywodraeth Cymru. 2016. The Attitudes of Parents Towards Managing Young Children's Behaviour: National Survey for Wales, 2014-15 – Re-contact Survey. [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160317-attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour-en.pdf>.
- ^{xviii} Llywodraeth Cymru. 2016. The Attitudes of Parents Towards Managing Young Children's Behaviour: National Survey for Wales, 2014-15 – Re-contact Survey. [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160317-attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour-en.pdf>. t. 28
- ^{xix} Hughes P, Chief Executive Ministry of Social Development (2009) "Report to the Minister for Social Development and Employment: pursuant to section 7(2) of the Crimes (substituted section 59) Act", New Zealand Ministry of Social Development
- ^{xx} Review of New Zealand Police and Child, Youth and Family Policies and Procedures relating to the Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act (2009))
- ^{xxi} Heilmann, A., Kelly, Y., a Watt, R. C. (2015) "Equally Protected? A review of the evidence on the physical punishment of children" [ar-lein]. Ar gael o: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/equally-protected.pdf> [Cyrchwyd:

12 Rhagfyr 2017]; Busmann, K D; Erthal, C; Schroth, A (2011) "The Effect of Banning Corporal Punishment in Europe: A Five-Nation Comparison"

^{xxii} Ministry of Social Development (2009), "Strategies with Kids – Information for Parents (SKIP) What it is and why it works", New Zealand Ministry of Social Development

^{xxiii} Gershoff, E. T. & Grogan-Kaylor, A. (2016) "Spanking and child outcomes: Old controversies and new meta-analyses". *Journal of Family Psychology*

^{xxiv} O'Connor, T & Scott, S (2007) "Parenting and outcomes for children", Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

^{xxv} Sroufe, L.A., Egeland, B a Kreutzer, T. (1990) "The fate of early experience following developmental change: longitudinal approaches to individual adaptation in childhood", *Child Development* 1990 Hydref; 61(5): 1363-73

^{xxvi} Seaman, P. Turner, K., Hill, M., Stafford, A. a Walker, M. (2006) "Parenting and Children's resilience in disadvantaged communities". Sefydliad Joseph Rowntree

^{xxvii} Moretti, M. (2004) "Adolescent-parent attachment: Bonds that support healthy development", *Paeditr Child Health, Cyfrol 9, Rhif 8, Hydref 2004*

^{xxviii} Asmussen, K., Corlyon, J., Hauari, H. a La Placa, V. (2007) "Supporting Parents of Teenagers", Policy Research Bureau. Research Report RR830

^{xxix} O'Connor, T. a Scott, S. (2007) "Parenting and outcomes for children", Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

^{xxx} Katz, I a Redmond, G. (2009) "Family income as a protective factor for child outcomes" *Social Policy Review* 21, Bryste: The Policy Press

^{xxxi} Nixon, E. (2012) "Growing Up In Ireland – How Families Matter For Social And Emotional Outcomes Of 9-Year-Old Children", Department of Children and Youth Affairs, Iwerddon, ISBN 978-1-4064-2646-5